# Y Por Is-ddeddfwriaethwyllg

## (SLC(3)-19-08)

### SLC190

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001. Yn unol â'r Rheoliadau, caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth gwladol (sy'n cydategu cymorth y Gymuned Ewropeaidd) mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol, a chânt hefyd bennu math neu ddosbarthiad sefydliadau addysgol neu gynhyrchion llaeth y ceir talu cymorth gwladol mewn cysylltiad â hwy.

### Trefn:  Negyddol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn dan Reol Sefydlog 15.2 ar sail yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol):

Cyfeiria Rheoliad 2 yn y diffiniad o "cyfnod allweddol 2" at "adran 355 o Ddeddf Addysg 1996". Mae'r cyfeiriad at adran 355 o Ddeddf Addysg 1996 yn anghywir gan fod yr adran hon wedi'i diddymu yng Nghymru gan Ddeddf Addysg 2002. Adran 103 o Ddeddf Addysg 2002 sydd bellach yn diffinio "cyfnod allweddol 2".

Cyfeiria Rheoliad 3 at allu Gweinidogion Cymru i roi cymorth  mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn "sefydliadau addysgol". Dylai'r cyfeiriad cywir fod at "sefydliadau addysgol cymwys" sy'n derm a gaiff ei ddiffinio yn Rheoliad 2.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Medi 2008

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a nodwyd a'i bod yn bwriadu eu cywiro o fewn y tri mis nesaf.